Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG (MÔN A GWYNEDD)** | **SPECIAL EDUCATIONAL NEEDS JOINT-COMMITTEE (ANGLESEY AND GWYNEDD)** |
| **DYDD GWENER, 26 MEHEFIN 2015 at 10.30 y bore** | **FRIDAY, 26 JUNE, 2015 at 10:30 a.m.** |
| **YSTAFELL GLYDER FAWR, SWYDDFEYDD PENRALLT, CAERNARFON** | **GLYDER FAWR ROOM, PENRALLT OFFICES, CAERNARFON** |
| **Swyddog Pwyllgor** — **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU/MEMBERS:**

Cynghorwyr/Councillors:

**CYNGOR GWYNEDD COUNCIL**

Annwen Hughes, Elin Walker Jones, Linda Ann Jones, Beth Lawton, Caerwyn Roberts *(Cadeirydd/Chair)* Peter Read, Eirwyn Williams.

**CYNGOR SIR YNYS MÔN/ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

Derlwyn Hughes, Trefor Lloyd Hughes, Llinos M.Huws *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Gwilym O.Jones, R.Meirion Jones, J.Arwel Roberts, Ieuan Williams

**YR EGLWYS/THE CHURCH**

Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales
Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church
Mr Rheinallt Thomas (Eglwysi Rhyddion/Free Churches)

# R H A G L E N

**1** **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **<u>COFNODION CYFARFOD 9 IONAWR, 2015</u>** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Cyd-Bwyllgor a gynhaliwyd ar 9 Ionawr, 2015.

**3** **<u>STRATEGAETH CYNGOR GWYNEDD AR GYFER ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD</u>**

Derbyn diweddariad ar lafar gan Swyddogion/Aelod Portffolio Cyngor Gwynedd.

**4** **<u>UNED DDARPARU AAA</u>** (Tudalennau 7 - 10)

Cyflwyno adroddiad ar waith yr Uned Ddarparu AAA yn ystod tymor y Gwanwyn, 2015.

**5** **<u>DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2014/15</u>** (Tudalennau 11 - 16)

Cyflwyno Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyd-Bwyllgor am 2014/15.

**6** **<u>CYFRIFON TERFYNOL 2014/15</u>** (Tudalennau 17 - 28)

Cyflwyno cyfrifon terfynol y Cyd-Bwyllgor am 2014/15.

**7** **<u>CYLLIDEB 2015/16</u>**

Cyflwyno adroddiad ynglyn â chyllideb y Cyd-Bwyllgor am 2015/16.
*(Adroddiad i ddilyn)*

**8** **<u>CYFARFODYDD AM Y FLWYDDYN I DDOD</u>**

Dydd Gwener 18ed Medi, 2015 am 2:00 y. p. (Llangefni)
Dydd Gwener, 20ed Tachwedd, 2015 am 10:30 y.b. (Caernarfon)
Dydd Gwener, 18ed Mawrth, 2016 at 10:30 y.b. (Llangefni)

# CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ionawr, 2015

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd E.Caerwyn Roberts (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd)<br><br>**Cyngor Gwynedd**<br><br>Cynghorwyr Annwen Hughes, Elin Walker Jones, Beth Lawton, Eirwyn Williams<br><br>**Cyngor Sir Ynys Môn**<br><br>Cynghorwyr Derlwyn Hughes, Gwilym O.Jones, R. Meirion Jones, Ieuan Williams |
| **WRTH LAW**: | Mr Gareth Payne (Prif Seicolegydd Addysgol)<br>Mr Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyngor Gwynedd)<br>Dr Gwynne Jones (Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn)<br>Mrs Delyth Molyneux (Pennaeth Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn)<br>Mrs Orina Pritchard (Uwch Gyflenwr Trawsnewid Gwasanaethau ADY a Chynhwysiad Cyngor Gwynedd) (ar gyfer eitem 7 )<br>Mr Garem Jackson (Swyddog Addysg Cyngor Gwynedd)<br>Mrs Kathy Bell (Uwch Gyfrifydd Addysg Cyngor Gwynedd)<br>Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor Cyngor Sir Ynys Môn) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorydd Peter Read (Cyngor Gwynedd), Cynghorwyr Llinos Medi Huws, J.Arwel Roberts (Cyngor Sir Ynys Môn), Mr Rheinallt Thomas (Eglwysi Rhyddion) |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Portffolio Addysg Cyngor Gwynedd), Eleri Llewelyn Owen (Swyddog Prosiect) (ar gyfer eitem 7) |

---

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 2. COFNODION CYFARFOD 19 MEDI, 2014

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig a gynhaliwyd ar 19 Medi, 2014, ac fe'u cadarnhawyd fel rhai cywir.

### 3. YR UNED DDARPARU ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Seicolegydd Addysgol yn amlinellu'r sefyllfa yn yr Uned Ddarparu AAA yn ystod tymor yr Haf, 2014.

Adroddodd y Prif Seicolegydd Addysgol am sefyllfa staff y tri tîm o fewn yr Uned Ddarparu – y Gwasanaeth Gweinyddol, y Gwasanaeth Athrawon Arbenigol a'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol. Ymhelaethodd ar gyfansoddiad y timau ar ddiwedd y tymor ac eglurodd beth fu effaith unrhyw fwlch mewn gwasanaeth oherwydd absenoldeb a hynny yn neilltuol yng nghyswllt y Gwasanaeth Athrawon Arbenigol a'r mesurau a gymerwyd i liniaru hynny, i atgyfnerthu'r tîm ac i sicrhau parhâd gwasanaeth di-dor i'r ysgolion. Nododd y Swyddog bod y tîm gweinyddol yn gweithio i'w lawn gapasiti erbyn diwedd y tymor ac yn gyffelyb, roedd y tîm Seicoleg Addysg hefyd yn gweithredu'n llawn am y tymor gyda'r seicolegwyr yn darparu gwasanaeth i'r ysgolion a'r seicolegwyr cynorthwyol yn gweithio ar ddarnau o waith penodol fel y'u disgrifir yn yr adroddiad.



DRAFT

Cyfeiriodd y Prif Seicolegydd Addysgol at fodel gweithredu'r Uned Ddarparu sef bod y seicolegwyr addysgol yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r ysgolion ar sail ymatebol a'r athrawon arbenigol yn ymwneud â hwy mewn ffordd sy'n llai amlwg. Mae'r tîm gweinyddol yn rheoli'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â phlant sy'n derbyn cymorth ychwanegol.

Rhoddodd y Cyd-Bwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth a gyflwynwyd a thra'n cydnabod bod y sefyllfa staff wedi sefydlogi a'i fod yn gwerthfawrogi mewnbwn ychwanegol gan staff i gyflenwi am absenoldeb lle bu angen hynny, gwnaed y sylw y byddid wedi croesawu mwy o naratif am natur y gwaith a ymgymerir gyda phlant, yr allbynnau o ran cyfrannu at gynnydd y plant a'r gwerth ychwanegol mae hynny yn ei roi. Gofynnwyd a yw anawsterau recriwtio yn dramgwydd i'r gynhaliaeth a roddir i blant sydd angen cefnogaeth ychwanegol, ac a yw'r sefyllfa staff mewn perthynas â'r maes anawsterau iaith, lleferydd a chyfathrebu yn ddigonol i gyfarch y twf yn y gofyn o fewn y maes hwn. Dywedodd y Prif Seicolegydd Addysgol nad ystyriai fod y sefyllfa staffio bellach yn llyffethair o ran y gallu i ddarparu gwasanaeth teilwng a bod sefyllfa staffio'r Uned Ddarparu yn agos at gyflawnder yn ystod tymor y Haf. Cyfeiriodd Pennaeth Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn at unedau anhwylder iaith yr Awdurdod a bod athrawon arbenigol yn gweithio ochr yn ochr â therapyddion iaith i ddiwallu'r gofyn ym Môn.

**Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a nodi sefyllfa'r Uned Ddarparu yn ystod tymor yr Haf, 2014.**

**CAM GWEITHREDU'N CODI: Y Prif Seicolegydd Addysgol i gynnwys gwybodaeth am natur y gwaith a ymgymerir gyda phlant yn yr adroddiad nesaf.**

## 4. Y SEFYLLFA ARIANNOL A THORIADU CYLLIDEBOL

Adroddodd Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn y crybwyllwyd yn y cyfarfod blaenorol am gais a wnaed i bob gwasanaeth yng Nghyngor Sir Ynys Môn i ddarganfod hyd at gwerth 10% o arbedion fel rhan o'r broses o lunio cyllideb y Cyngor am 2015/16. Dywedwyd ar y pryd y gallasai hynny gael effaith ar y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig yn 2015/16. Dywedodd nad yw'r pwysau ariannol wedi lleihau ac y gallai gadarnhau felly y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn bwrw ymlaen i weithredu toriad o 10% yn ei gyfraniad at gyllideb y Cyd-Bwyllgor am 2015/16. Mewn ymateb i gwestiwn ynglyn â beth fyddai'r disgwyl i'r Cyd-Bwyllgor gwtogi arno o ran darpariaeth i ymdopi â'r toriad, dywedodd Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Môn nad oedd y drafodaeth fanwl honno eto wedi digwydd. Byddid yn y lle cyntaf yn ceisio adnabod arbedion effeithlonrwydd cyn edrych ar unrhyw wasanaethau, ond mae'r drafodaeth honno i'w chynnal.

Mynegwyd anghysur gan Aelodau'r Cyd-Bwyllgor ynglyn ag effaith bosib toriadau yn y maes ar garfan fregus o blant ac awgrymwyd y gall fod yna oblygiadau pellach o gwtogi ar ddarpariaeth mewn costau uwch yn y pen draw pan fyddai ymyrraeth gynnar ac amserol wedi arbed ar hynny.

Adroddodd Aelod Portffolio Addysg Cyngor Gwynedd bod Sir Gwynedd wrthi'n cynnal adolygiad o'r maes anghenion dysgu ychwanegol yn ei gyfanrwydd yn hytrach na thorri canran o'r gyllideb, a bod strategaeth ddrafft i'r perwyl ar raglen y cyfarfod.

Dywedodd Uwch Gyfrifydd Addysg Cyngor Gwynedd ers sefydlu'r Cyd-Bwyllgor yn 1996 mae'r ddwy sir wedi symud ymlaen ar y cyd o ran cyllido'r corff ac wedi bod yn gytun o ran ymagweddu tuag at doriadau.Efallai bydd angen adolygu'r ddarpariaeth os yw'r naill sir neu'r llall yn gwyro o'r trefniadau cytunedig.

Dywedodd Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Ynys Môn bod cyllido'r Cyd-Bwyllgor wedi bod yn destun trafodaeth ers cryn amser a'i fod wedi deall ei bod yn fwriad symud i'r un cyfeiriad. Os yw strategaeth Cyngor Gwynedd yn debygol o olygu cyflwyno newidiadau bydd gofyn ystyried hynny yng nghyd – destun y Cyd-Bwyllgor ond tebyg na fydd bwriadau Ynys Môn o ran gweithredu toriadau yn newid.

Gofynnwyd a oedd modd defnyddio balansau'r Cyd-Bwyllgor i wneud i fyny am unrhyw ddiffyg cyllidebol. Dywedodd Uwch Gyfrifydd Addysg Cyngor Gwynedd bod yna ymrwymiadau sylweddol eisoes yn erbyn y cyllid wrth gefn.

**Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a'r sefyllfa gyllidol gyfredol o ran Cyngor Sir Ynys Môn.**

**DIM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**5. ADRODDIAD ARIANNOL – ADOLYGIAD O GYFRIFON 2014/15**

Dosbarthodd Uwch Gyfrifydd Addysg Cyngor Gwynedd adroddiad yn crynhoi'r sefyllfa mewn perthynas â chyllideb 2014/15 o ran y gofynion arni fel a ganlyn –

- Ar ddiwedd 2013/14 roedd balansau'r Cyd-Bwyllgor AAA yn £277 mil. Yn ystod 2014/15, mae newidiadau staffio wedi arwain at orwariant o oddeutu £68 mil yn erbyn cyllideb staffio 2014/15.
- Mae iawndal a chostau cyfreithiol o £25 mil wedi'u talu i gyn-aelod o staff fel dilyniant i ddwyn achos cydraddoldeb yn erbyn y Cyd-Bwyllgor.
- Mae yna gostau hyfforddiant cyfwerth â £15 mil sydd yn rhan o'r strategaeth i sicrhau cyflenwad o staff cymwys i'r dyfodol.
- Mae cynnydd o bron i £9 mil mewn costau rhent a gwasanaethau ar gefn adolygiad o gostau a defnydd y swyddfeydd presennol. Bydd y Cyd-Bwyllgor yn fuan yn ad-leoli i swyddfeydd eraill yng Nghaernarfon ar gost unwaith ac am byth o oddeutu £5 mil. Ysgwyddir elfen o gostau'r ad-leoli yn 2014/15 gan Gyngor Gwynedd. Mewn blwyddyn gyfan amcangyfrifir y bydd cost y swyddfeydd newydd oddeutu £20 mil yn fwy na chyllideb y Cyd-Bwyllgor yn 2015/16 a bydd gofyn darganfod arbedion i'w gyllido.
- Amcangyfrifir gorwariant ar gostau teithio staff o oddeutu £5 mil erbyn diwedd y flwyddyn.
- Rhagwelir gorwariant o oddeutu £7 mil ar gostau adnoddau, hysbysebu cyfrifon terfynol 2013/14 a chostau post.
- Mae yna ddiffyg o oddeutu £7 mil ar greu incwm a hynny'n bennaf oherwydd y sefyllfa staffio a diffyg capasiti i gynnal unrhyw hyfforddiant fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol.
- Mae effaith gyfan y newidiadau a'r buddsoddiadau yn ystod y flwyddyn yn golygu y bydd angen defnyddio gwerth £143 mil o falansau'r Cyd-Bwyllgor yn 2014/15 fydd yn gadael gweddill o oddeutu £134 mil erbyn 31 Mawrth, 2015.

Cadarnhawyd y byddai'r swyddogion yn cyfarfod i drafod y sefyllfa o ran cyllideb 2015/16.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r sefyllfa.**

**DIM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**6. GWAHARDD Y WASG AR CYHOEDD**

Ystyriwyd a phenderfynwyd o dan y ddeddfwriaeth berthnasol i gau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem isod am y rhesymau a roddir yn y ddalen Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.

**7. STRATEGAETH CYNGOR GWYNEDD AR GYFER ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD.**

Cyflwynwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Cyngor Gwynedd yn ymgorffori Strategaeth ddrafft y Cyngor ar gyfer trawsnewid y maes Anghenion Dysgu Ychwanegol er mwyn cyflawni'r deilliannau canlynol gogyfer y plant a'r bobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol –

- Bod plant yn derbyn y math cywir o gefnogaeth ac ymyrraeth yn y blynyddoedd cynnar
- Bod plant yn cael y profiadau addysgol gorau posibl, ac yn sgîl hynny, yn cyflawni eu potensial ac yn cael y cyfleoedd gorau mewn bywyd
- Bod plant yn derbyn gwasanaeth o ansawdd gan dimau aml-ddisgyblaethol ac aml-asiantaethol ar draws Gwynedd, sy'n cyd-weithio, cyd-gynllunio ac yn rhoi cyngor a gwybodaeth eglur i rieni bob plenty.
- Bod plant yn derbyn eu haddysg mewn amhylchedd dysgu ac ansawdd uchel (yn enwedig y plant efo anghenion dwys a chymhleth) a bod y defnydd gorau posibl yn cael ei wneud o ddatblygiad newydd y Ganolfan Rhagoriaeth ADY.

  Adroddodd Aelod Portffolio Addysg Cyngor Gwynedd mai ffrwyth adolygiad o'r maes ADY cyfan yw'r strategaeth ddrafft a gyflwynir. Bydd y strategaeth yn destun ymgynghori yn y cyfnod o 19 Ioanwr tan ddiwedd Chwefror, 2015 cyn iddi gael ei chyflwyno'n derfynol i'r Cyd-Bwyllgor a wedyn Cabinet Cyngor Gwynedd yn ystod Ebrill, 2015. Bu sawl ffactor yn ysgogiad i lunio'r



DRAFT

strategaeth yn cynnwys newidiadau deddfwriaethol; y dymuniad i roi mwy o sylw i blant yn eu blynyddoedd cynnar a sicrhau ynmyrraeth briodol yn gynt ; y rhaglen ar gyfer datblygu'r Ganolfan Rhagoriaeth yng Ngwynedd a'r angen i wneud y mwyaf a'r defnydd gorau o adnoddau prin. Y desiyfiad yw tynnu'r holl agweddau o ddarpariaeth ADY ynghyd mewn tîm integredig.

Ategodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyngor Gwynedd y sylwadau uchod ac fe fanylodd ar y rhesymau tu cefn i'r adolygiad a'r hyn y bwriedir ei gyflawni trwy ei weithredu o ran creu gwasanaeth sy'n effeithiol ac yn effeithlon ac un sy'n ymateb yn briodol ac yn amserol i anghenion plant a phobl ifanc yng Ngwynedd.

Rhoddodd Uwch Gyflenwr Trawsnewid Gwasanaethau ADY a Chynhwysiad Cyngor Gwynedd gyflwyniad gweledol oedd yn ymhelaethu ar y camau unigol y byddir yn eu cymryd i wireddu'r pedwar amcan/deilliant allweddol a nodir uchod.

Dywedodd Prif Seicolegydd Addysgol y Cyd-Bwyllgor ei fod yn siomedig gyda'r cynnig yn y Strategaeth i ddad-gomisiynu'r Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig yn enwedig o ran sicrhau eglurder mewn perthynas â chyfrifoldebau ac atebolrwydd; teimlai bod hynny'n bosib o fewn strwythur y Cyd-Bwyllgor a'i fod eisoes yn gweithredu fel canolfan arbenigol i'r ddwy sir.

Mynegwyd siomedigaeth o du cynrychiolwyr Ynys Môn hefyd na chafwyd y cyfle i siapio'r strategaeth ar sail cyd-gynllunio fel partneriaid. Nodwyd bod Adroddiad Williams yn annog cyd-weithio rhwng awdurdodau ar raddfa ehangach, sef yr hyn mae'r Cyd-Bwyllgor wedi bod yn ei gyflawni'n adeiladol ers ei sefydlu. Awgrymwyd bod yma wanhau'r bartneriaeth trwy fod Cyngor Gwynedd yn gosod allan ei weledigaeth ei hun ar gyfer y ddarpariaeth o fewn y sir honno yn benodol.

Dywedodd Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Ynys Môn bod y Strategaeth yn cynnwys syniadau cychwynnol y mae angen eu hystyried o ran eu heffaith ar Ynys Môn ac er mwyn canfod ffordd ymlaen. Mae'r egwyddorion y mae'r ddwy sir yn eu coleddu ar gyfer y maes yn gyffredin yn yr ystyr bod y ddwy sir yn awyddus i sicrhau'r profiadau a'r deilliannau gorau i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Amlygwyd safbwynt Ynys Môn yn y cyfarfod blaenorol, sef na ddymunai weld diddymu'r Cyd-Bwyllgor ond yn hytrach tynhau ar ei waith trwy gyfrwng Cytundeb Lefel Gwasanaeth grymusach a mwy manwl. Er bod y farn hon yn parhau, byddid yn dymuno edrych ar y cynigion sydd yn y Strategaeth ddrafft gan Gyngor Gwynedd i chwilio am dir sy'n gyffredin er mwyn symud ymlaen. Sefydlwyd y Cyd-Bwyllgor yn 1996 fel peirianwaith ar gyfer cyd-weithio ar lefel eang yn y maes ac er mwyn rhannu arbenigeddau dwyieithog prin ym maes anghenion addysgol arbennig. O ddidoli'r cyswllt mae yna berygl bydd y ddau awdurdod yn cystadlu am yr un staff. O ran Ynys Môn, mae'r ymrwymiad i geisio cyd-weithio yn parhau ond bod hynny yn digwydd i bwrpas. I'r perwyl hynny cytunwyd i gynnal cyfarfod pellach i ganfod pa elfennau o weledigaeth y Strategaeth mae'r ddwy sir yn eu rhannu a sut bydd hynny o fantais i Ynys Môn.

Yn y drafodaeth a ddilynodd codwyd y pwyntiau cyffredinol canlynol –

- Bod yna dderbyn yr egwyddorion sylfaenol tu cefn i'r strategaeth parthed cael y canlyniadau gorau i blant ag anghenion addysgol ychwanegol a gwneud hynny mewn ffordd effeithiol ac effeithlon. Fodd bynnag, mynegwyd amheuaeth ynglyn â chost ei weithredu yn enwedig yng nghyswllt ymrwymiadau'r ddogfen e.e. y buddsoddiadau mewn dwysáu'r ddarpariaeth yn y blynyddoedd cynnar ac uwch sgilio staff. Nodwyd nad oedd yna dystiolaeth amlwg o le byddid yn canfod yr arbedion.
- Nad oedd y ddogfen yn glir o ran trefniadau llywodraethu'r gyfundrefn newydd ac a fyddai hynny yn digwydd ar sail y ddwy sir ar wahân.
- Bod yna bryder y gallai'r ddau awdurdod gael eu hunain mewn sefyllfa o fod yn cystadlu am staff arbenigol a bydd yna chwalu'r tîm presennol a'r arbenigeddau sydd ynddo.
- Tra'n croesawu o du Gwynedd, y cysyniad o gael un pwynt canolog , mynegwyd pryder y byddai yna bwysau ychwanegol ar ysgolion a disgwyliadau ar y ddarpariaeth feithrin heb fod yna fuddsoddi yn y ddarpariaeth honno fyddai yn ei dro yn ei gwneud yn anodd i ddal plant ag anghenion arbennig yn gynt fel yw'r dymuniad yn y strategaeth.
- Gofynnwyd a fyddai'r drefn newydd yn gwella'r berthynas gyda'r Gwasanaeth Iechyd a sicrhau mewnbwn cynt ganddynt.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwynedd nad oedd y strategaeth mewn unrhyw ffordd yn feirniadaeth ar effeithiolrwydd y Cyd-Bwyllgor ond yn hytrach yn ceisio adeiladu ar gryfderau'r endid hwnnw trwy sefydlu tîm canolog aml-asiantaethol ac am-ddisgybledig. Mae'r adolygiad yn un bwriadus a systematig o'r maes cyfan ac yn un sydd wedi'i gynllunio'n ofalus. Cydnabyddir y bydd yna gostau ynghlwm wrth rai o'r cynigion ond mae Cyngor Gwynedd yn dymuno buddsoddi ar sail unwaith ac am byth er mwyn gweithredu elfennau o'r strategaeth e.e. hyfforddi staff ac uwch sgilio'r gweithlu. Mae rhai o'r cynigion hefyd yn golygu newid  ac addasu'r ffordd y defnyddir adnoddau fel eu bod yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Cyngor yn well megis trwy dargedu'r blynyddoedd cynnar. Amcangyfrifir y bydd gweithredu cynigion y Strategaeth yn arwain at arbedion blynyddol parhaol o £1.1m erbyn 2021/22, a bydd elfen o'r arbedion hynny yn dod o gyfraniad Cyngor Gwynedd i'r Cyd-Bwyllgor. Dywedodd y Swyddog bod cyfle i gyflwyno sylwadau pellach ar y ddogfen yn ystod y cyfnod ymgynghori pe dymunir gwneud hynny.

**Penderfynwyd nodi Strategaeth ddrafft Cyngor Gwynedd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad a nodi hefyd y bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal rhwng y ddwy sir yn ei chylch.**

**DIM GWEITHREDU PELLACH YN CODI.**

## 8. CYFARFOD NESAF

Nodwyd y trefnwyd i'r Cyd-Bwyllgor gyfarfod nesaf am 10:30 y bore, ddydd Gwener, 13 Mawrth, 2015 yn Llangefni.

**Cynghorydd E.Caerwyn Roberts**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig |
| **DYDDIAD:** | 26ain Mehefin 2015 |
| **TEITL YR ADRODDIAD**: | Adroddiad yr Uned Ddarparu AAA |
| **GWEITHREDU**: | Ystyried yr adroddiad |

**CEFNDIR**: Disgrifir gwaith Uned Ddarparu'r Cyd-Bwyllgor AAA yn ystod Tymor y Gwanwyn, 2015.

# Adroddiad yr Uned Ddarparu AAA

## 1.0 Gweinyddu Prosesau Asesu ac Adolygu

Ar ddechrau’r tymor, roedd un o’r Cymorthyddion Gweinyddol wedi gadael ei waith, a phenderfynwyd peidio llenwi’r swydd hon.

Felly roedd y tîm gweinyddu’n gweithredu ar lai na’i lawn capasiti, gydag Uwch Swyddog Gweinyddol, dwy Swyddog Datganiadau, a chyfwerth â 2.8 cymhorthydd gweinyddol, yn gweithredu’r system o Asesu Statudol a darparu Datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig. Mae’r system arall, o drefnu cymorth ar delerau mwy anffurfiol, a enwir yn 3*, bellach wedi dod i ben.

Tua diwedd y tymor, gadawodd yr Uwch Swyddog Gweinyddol y Cyd-bwyllgor, yn dychwelyd i’w swydd wreiddiol wedi i’w chyfnod o secondiad ddod i ben.

Rydym wedi hysbysebu am Reolwr Gwasanaeth newydd yn ei lle, ac wedi cyfweld dwy ymgeisydd, ond ar hyn o bryd mae’r swydd yn wag o hyd. Rydym wedi ail-hysbysebu’r swydd ac mae un ymgeisydd.

## 2.0 Gwasanaeth Athrawon Arbenigol

Mae gennym dîm cryf o athrawon arbenigol ar hyn o bryd, yn cynnwys athrawon profiadol, athrawon sydd wedi eu penodi i’r tîm i fod yn barod i gymryd dyletswyddau staff fydd o oed ymddeol yn y dyfodol agos, a chymorthyddion arbenigol, all wneud agweddau penodol o’r gwaith ac felly rhyddhau athrawon i gyflawni dyletswyddau eraill.

Yn y gwasanaeth clyw, mae gynnon ni dair athrawes gymwysedig a phrofiadol, un yn bwriadu ymddeol cyn bo hir, ac un athrawes newydd sydd yn hyfforddi ar hyn o bryd. Mae gan y gwasanaeth hwn hefyd gymhorthydd am ddiwrnod yr wythnos sydd â sgiliau uchel mewn iaith arwyddo.

Yn y gwasanaeth golwg, mae gennym un athrawes arbenigol gymwysedig lawn amser, ac un athrawes newydd sydd yn hyfforddi ar hyn o bryd. Oherwydd bod hyn yn drwm ar yr athrawes arbenigol, mae dwy athrawes gymwysedig arall yn gweithio dros-dro am ddiwrnod yr wythnos yr un, i’w chynorthwyo. Mae hefyd dwy gymhorthydd, un yn llawn amser ac un yn 0.6, sydd â sgiliau Braille uchel.

Yn y gwasanaeth iaith a chyfathrebu, ac awtistiaeth, mae gennym dair athrawes sydd yn gymwysedig, un ohonynt yn gweithio’n 0.6 sydd efo arbenigedd mewn *Pathological Demand Avoidance* ac un sydd yn gweithio 0.5 sydd yn bwriadu ymddeol ac, unwaith eto, mae athrawes arall yn hyfforddi. Hefyd mae cymhorthydd yn gweithio i’r gwasanaeth yn rhan amser sydd efo arbenigedd mewn awtistiaeth.

Yn y gwasanaeth anawsterau corfforol a meddygol, mae gennym ddwy athrawes, un sydd yn gweithio 0.5 ac sydd o oed lle’r buasai’n gallu ymddeol.

## 3.0 **Gwasanaeth Seicoleg Addysgol**

Yn y gwasanaeth seicoleg addysgol rydym yn gweithio gyda llai o staff nag sydd gennym fel arfer, gan fod dau seicolegydd rhan amser wedi gadael y gwasanaeth ac rydym yn cynnal dwy seicolegwraig tan hyfforddiant ar y cwrs proffesiynol yng Nghaerdydd.

Rydym hefyd yn falch i longyfarch ein seicolegydd a oedd yn dysgu Cymraeg, ar gyrraedd lefel dda o Gymraeg weithredol, ac sydd felly'n gweithio fel aelod llawn o'r tîm erbyn hyn.

Rydym yn parhau i weithredu system lle mae pob ysgol gyda'i seicolegydd dynodedig, ac mae gennym hefyd seicolegwraig gynorthwyol, sydd wedi bod yn hynod o ddefnyddiol yn cymryd rhan mewn hyfforddiant, a gweithio gydag ysgolion ynglŷn â phlant unigol a sefyllfaoedd eraill, er nad yw'n gallu cymryd cyfrifoldeb am grŵp o ysgolion yn uniongyrchol.

Erbyn hyn, mae un o'n huwch-seicolegwyr wedi ei secondio i Wynedd i'w cynorthwyo efo datblygu'u systemau ar gyfer darpariaethau a threfniadau Anghenion Addysgol Arbennig.

Mae un o'n seicolegwyr newydd gwblhau cwrs Diploma mewn *Brief Therapy*, dull arbennig o weithio efo plentyn unigol, a ellir ei addasu i sawl sefyllfa wahanol.

Rydym wedi anfon holiadur i'r ysgolion unwaith eto, er mwyn ceisio eu barn am y gwasanaeth maent wedi ei dderbyn, ac unrhyw newidiadau yr hoffent eu gweld.

## 4.0 Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r tablau isod yn dangos y nifer o ddatganiadau terfynol a gyhoeddwyd o fewn yr amserlen statudol o 26 wythnos yn ystod y flwyddyn academaiddd 2013 – 2014 (Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol).

Gellir gweld o'r tabl isod bod y tîm gweinyddol wedi llwyddo yn ystod y flywddyn gwblhau'r rhan fwyaf o'r datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig o fewn y terfynau amser, a'u bod wedi cynhyrchu nifer sylweddol mwy o ddatganiadau nag a wnaethpwyd yn ystod 2012, 73% cynnydd yng Ngwynedd, a 64% cynnydd yn Ynys Môn

| **Dangosyddion Perfformiad 26 wythnos Gwynedd Flwyddyn Academaidd 2013-2014** | | ffigurau 2012 |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer o ddatganiadau terfynol newydd | 85 | *49* |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **oddi mewn** i 26 wythnos **gydag** eithriadau | 33 | *25* |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **oddi mewn** i 26 wythnos **heb** eithriadau<br>h.y. oddi mewn i'r terfyn amser a dim eithriadau wedi eu cofnodi | 18 | *18* |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **dros** 26 wythnosau **gydag** eithriadau<br>h.y. dros y terfyn amser oherwydd, neu'n rhannol oherwydd, ffactorau allanol | 33 | *6* |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **dros** 26 wythnos **heb** eithriadau<br>h.y. tu hwnt i'r terfyn amser a dim eithriadau wedi eu cofnodi (neb yn hwyr yn cyflwyno eu cyngor o asiantaethau allanol a dim ffactorau oedd y tu hwnt i reolaeth yr adran addysg a/neu'r Cydbwyllgor AAA) | 1 | *0* |
| Dangosydd Perfformiad 15a:<br>O'r cyfanswm o achosion ar gyfer y flwyddyn, beth oedd y ganran **oddi mewn** i'r 26 wythnos, os oedd yna eithriad ai peidio? | 60% | *87.8%* |
| Dangosydd Perfformiad 15b:<br>O'r achosion lle nad oedd yna eithriadau, beth oedd y ganran o'r rhai a gwblhawyd oddi mewn i'r 26 wythnos? | 95% | *100%* |

| **Dangosyddion Perfformiad 26 wythnos Ynys Môn 2012 Flwyddyn Academaidd 2013-2014** | | ffigurau 2012 |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer o ddatganiadau terfynol newydd | 36 | *22* |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **oddi mewn** i 26 wythnos **gydag** eithriadau | 13 | *12* |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **oddi mewn** i 26 wythnos **heb** eithriadau<br>h.y. oddi mewn i'r terfyn amser a dim eithriadau wedi eu cofnodi | 8 | *6* |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **dros** 26 wythnosau **gydag** eithriadau<br>h.y. dros y terfyn amser oherwydd, neu'n rhannol oherwydd, ffactorau allanol | 14 | *4* |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **dros** 26 wythnos **heb** eithriadau<br>h.y. tu hwnt i'r terfyn amser a dim eithriadau wedi eu cofnodi (neb yn hwyr yn cyflwyno eu cyngor o asiantaethau allanol a dim ffactorau oedd y tu hwnt i reolaeth yr adran addysg a/neu'r Cydbwyllgor AAA) | 1 | *0* |
| Dangosydd Perfformiad 15a:<br>O'r cyfanswm o achosion ar gyfer y flwyddyn, beth oedd y ganran **oddi mewn** i'r 26 wythnos, os oedd yna eithriad ai peidio? | 58% | *81.8%* |
| Dangosydd Perfformiad 15b:<br>O'r achosion lle nad oedd yna eithriadau, beth oedd y ganran o'r rhai a gwblhawyd oddi mewn i'r 26 wythnos? | 89% | ***100%*** |

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig |
| **DYDDIAD:** | 26 Mehefin 2015 |
| **TEITL YR ADORDDIAD:** | Datganiad Llywodraethu Blynyddol |
| **GWEITHREDU:** | Derbyn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol |

**CEFNDIR :**

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn mynnu fod pob Cyd-Bwyllgor yn cynhyrchu Datganiad o Reolaeth Mewnol ac i'r pwrpas yma fe ddarparwyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor dderbyn y datganiad a bwriedir ei gyfuno gyda chyfrifon y Cyd-Bwyllgor i ffurfio un ddogfen gyfansawdd i'w chyflwyno i'r Cyd-Bwyllgor am gymeradwyaeth ddiwedd mis Medi 2015.

**<u>DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL</u>**

Mae'r datganiad hwn yn cwrdd â'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 4 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

**Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB**

Sefydlwyd y Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig gan Cyngor Gwynedd a Cyngor Sir Ynys Môn yn 1996 at ddiben darparu gwasanaeth anghenion addysg arbennig drwy gyflawni'r swyddogaethau a fanylir arnynt mewn cytundeb lefel gwasanaeth rhwng y Cyd-bwyllgor a'r awdurdodau.

Mae'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei diogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig hefyd yn gyfrifol am gynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, ac sydd yn cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

**Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd hynny sydd yn cyfeirio a rheoli'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdodau sydd yn rhan o'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac i ystyried os yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisïau ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses parhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisïau, bwriadon ac amcanion y Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig, i werthuso'r tebygolrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ac i isafu'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu berthnasol wedi bod yn ei le ar gyfer y Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2015 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

**Rhan 3: Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

**3.1 Aelodaeth**

Mae'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig wedi ei sefydlu yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972 o dan adran 101, adran 102(1) (b) (hawl i ddau neu ragor o awdurdodau benodi cyd bwyllgor), adran 103 (gwariant Cyd-bwyllgor i'w rannu rhwng yr awdurdodau), adran 104 (rheolau arferol awdurdodau lleol ar gyfer gwahardd aelod rhag bod yn aelod pwyllgor ar y cyd) ac adran 105 (gwahardd pleidleislo oherwydd buddiant mewn contractau ayb).

Mae aelodaeth y Cyd-bwyllgor yn cynnwys 7 aelod o Gyngor Gwynedd a 7 aelod o Gyngor Sir Ynys Môn. Penodir yr aelodau gan yr Awdurdod yn unol â rheolau cydbwysedd gwleidyddol sy'n berthnasol i'r Awdurdod hwnnw. Yn ychwanegol mae aelodaeth y Cyd-bwyllgor yn cynnwys 1 aelod a enwebir gan Fwrdd Cyllidol Esgobaethol Bangor sydd â'r hawl i bleidleisio, 1 aelod a enwebir gan yr Eglwys Babyddol sydd â'r hawl i bleidleisio, ac un aelod a enwebir gan yr eglwysi rhyddion nad oes gan yr hawl i bleidleisio.

Mae tymor aelodaeth, yn ogystal â threfniadau penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd, wedi eu diffinio o fewn y Cyfansoddiad.

Mae'r Cyd-bwyllgor yn drefniant parhaol, ac yn unol â'r Cyfansoddiad rhaid i'r naill awdurdod neu'r llall rhoi rhybudd o flwyddyn yn diweddu ar derfyn blwyddyn gyllidol os am dynnu allan o'r trefniant.

**3.2 Swyddogaethau**

Mae'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig yn cyflawni'r canlynol ar ran Cyngor Gwynedd a Cyngor Sir Ynys Môn:

- Darparu gwasanaeth anghenion addysg arbennig drwy gyflawni'r swyddogaethau a fanylir arnynt mewn cytundeb lefel gwasanaeth rhwng y Cyd-bwyllgor a'r awdurdodau.

**3.3 Strwythur, Rolau a Chyfrifoldebau**

Mae Cyfansoddiad yn ei le ar gyfer y Cyd-bwyllgor, yn ddyddiedig 30 Ionawr 2004. Mae'r Cyfansoddiad yn amlinellu'r rolau canlynol

- Bydd holl weithgaredd y Cyd-bwyllgor yn unol â Rheolau Gweithdrefn Cyngor Sir Ynys Môn.
- Darperir cyfleusterau gweinyddol ac ysgrifenyddol i'r Cyd-bwyllgor gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Sir Ynys Môn, a rhennir y gost rhwng y ddau awdurdod.
- Cyflogir staff ar y cyd gan y ddau Awdurdod at ddibenion cyflawni'r swyddogaethau a ddirprwyir i'r Cyd-bwyllgor. Cyflogir staff yn unol ag amodau gwaith Cyngor Sir Ynys Môn ynghyd ag unrhyw amodau ychwanegol a osodir gan y Cyd-bwyllgor. Mae'r Cyfansoddiad yn diffinio hawliau gweithredu'r Cyd-bwyllgor mewn perthynas â materion cyflogaeth staff.
- Darperir gwasanaeth personél i'r Cyd-bwyllgor gan Cyngor Sir Ynys Môn a rhennir y gost rhwng y ddau awdurdod.

- Bydd rheolau cyllidol Cyngor Gwynedd yn berthnasol i holl weithgaredd cyllidol y Cyd-bwyllgor. Rhaid i'r Cyd-bwyllgor adrodd yn flynyddol i'r ddau awdurdod ar ei sefyllfa gyllidol.
- Darperir yr holl wasanaethau cyllidol i'r Cyd-bwyllgor gan Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd a rhennir y gost rhwng y ddau awdurdod.
- Mae gan y Cyd-bwyllgor yr hawl i sefydlu un is-banel neu fwy ac i ddirprwyo rhai o'i swyddogaethau i'r Is-banel(au) ar yr amod nad yw'r dirprwyo hynny yn rhwystro gallu'r Cyd-bwyllgor ei hun i weithredu'r swyddogaethau hynny.

**Rhan 4: EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

Mae'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig yn gyfrifol am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd wedi ei lywio gan waith y rheolwyr gweithredol sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, unrhyw sylw yn adroddiad blynyddol pennaeth archwilio mewnol yr awdurdod lletyol, yn ogystal â sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu eraill ac arolygiaethau.

- Yn unol â Chyfansoddiad y Cyd-bwyllgor, mae ei holl weithgareddau yn unol â Rheolau Sefydlog Cyngor Sir Ynys Môn. O ganlyniad, felly, mae adolygiadau o effeithiolrwydd y Côd Llywodraethu Lleol, y Cyfansoddiad a chyfundrefn rheolaeth fewnol yr awdurdod hwnnw yn ymgorffori sylfaen lywodraethu'r Cyd-bwyllgor hefyd.

Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**.

**Rhan 5: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL**

Mae'r prosesau a ddisgrifir mewn rhannau blaenorol o'r datganiad hwn yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i adnabod unrhyw faterion llywodraethu arwyddocaol sydd angen sylw.

Nid yw'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig o'r farn fod unrhyw faterion o'r fath wedi codi yn ystod asesiad o'i drefniadau llywodraethu sydd yn gwarantu sylw yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yma.

**Rhan 6: BARN**

Rydym yn bwriadau cymryd camau i ddelio gyda'r materion uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon bydd y camau hyn yn delio gyda'r angen i wella adnabuwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

______________________________________

**ARWYN THOMAS**
**Pennaeth Addysg, Cyngor Gwynedd**

**Dyddiad :**

______________________________________

**Y Cynghorydd CAERWYN ROBERTS**
**Cadeirydd y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig**
**Dyddiad :**

______________________________________

**DELYTH MOLYNEUX**
**Pennaeth Dysgu, Cyngor Sir Ynys Môn**

**Dyddiad :**

This page is intentionally left blank

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd) |
| **DYDDIAD** | 26 Mehefin 2015 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 |
| **PWRPAS** | Cyflwyno –<br>• Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2014/15, a<br>• Ffurflen Swyddogol Flynyddol o'r Cyfrifon , wedi'i ardystio, ond cyn Archwiliad. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn a chymeradwyo'r cyfrifon |
| **AWDUR** | William E Jones, Uwch Reolwr Cyllid, Cyngor Gwynedd |

**1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL**

1.1 Fel adroddwyd mewn blynyddoedd a fu, mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.

1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau a chynghorau lleol eraill.

1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor 'arweiniol' sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ynglŷn â chyllid Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig Ynys Môn a Gwynedd.

1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn llai na £2.5m, ystyrir y cyd-bwyllgor yn "gyd-bwyllgor bach" a rhaid paratoi'r cyfrifon ar ffurf ffurflen flynyddol gan ddilyn arferion priodol yn unol â'r ddeddfwriaeth.

1.6 Bydd y Datganiad o'r Cyfrifon yn destun archwiliad ar wahân gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## 2. CYFRIFON 2014/15

2.1 **Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2014/15 yma fel Atodiad A,** ynghyd â sylwadaeth ar y prif wahaniaethau rhwng y gyllideb a'r gwir wariant er gwybodaeth yn unol â'r drefn "arferol", ar ffurf adroddiad "alldro" sydd, hyderaf, yn fwy dealladwy i aelodau weithredu fel "bwrdd rheolaethol".

2.2 **Yn Atodiad B, cyflwynir y Ffurflen Swyddogol Flynyddol am 2014/15 (cyn archwiliad), wedi'i gwblhau a'i ardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol,** sef Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (Dafydd L Edwards) fel y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor

2.3 Bydd y rhain yn destun archwiliad buan gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. Pe bydd angen newidiadau yna fe gyflwynir fersiwn diwygiedig i'r gyfarfod perthnasol o'r Cyd-Bwyllgor ym mis Medi cyn cael ei ardystio gan yr Archwiliwr cyn 30 Medi.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 **Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig dderbyn a chymeradwyo'r wybodaeth sy'n yr atodiadau,** sef –

- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2014/15 – Atodiad A
- Ffurflen Swyddogol Flynyddol o'r Cyfrifon 2014/15 (cyn archwiliad) – Atodiad B

# CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

# (CYNGHORAU GWYNEDD A MÔN)

## CYFRIF INCWM A GWARIANT REFENIW 2014/2015

| | strwythur staffio 2014/15 (CLIA) | Cyllideb 2014/2015 £ | Cyfrifon Terfynol 2014/15 £ | Gwahaniaeth Gor/(Tan)wariant £ |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | |
| Gweithwyr | | | | |
| Cyflogau | | | | |
| - Seicolegwyr | (8.1) | 524,240 | 511,111 | (13,129) |
| - Athrawon Cynhaliol | (7.6) | 382,304 | 468,048 | 85,744 |
| - Gweinyddol | (6.4) | 191,233 | 186,615 | (4,618) |
| Hyfforddiant | | 9,520 | 25,159 | 15,639 |
| Hysbysebu am Weithwyr | | 0 | 1,632 | 1,632 |
| Yswiriant Atebolrwydd | | 3,090 | 2,881 | (209) |
| Adeilad | | | | |
| Trethi | | 4,850 | 4,848 | (2) |
| Rhent a Gwasanaethau | | 11,290 | 19,716 | 8,426 |
| Cost Symud Swyddfeydd | | 0 | 1,560 | 1,560 |
| Cludiant | | | | |
| Costau Teithio | | 50,780 | 59,379 | 8,599 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | | |
| Adnoddau / Deunydd Swyddfa | | 17,480 | 28,027 | 10,547 |
| Hysbysebu Cyfrifon | | 0 | 1,051 | 1,051 |
| Ffi Archwilio | | 0 | 920 | 920 |
| Costau Cyfreithiol | | 0 | 2,115 | 2,115 |
| Ffôn | | 8,780 | 11,417 | 2,637 |
| Post | | 1,840 | 3,966 | 2,126 |
| Costau Canolog Ynys Môn | | 1,630 | 1,630 | 0 |
| Costau Canolog Gwynedd | | 4,910 | 4,910 | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant** | | 1,211,947 | 1,334,985 | 123,038 |
| **Incwm** | | | | |
| Incwm Allanol | | (9,160) | (4,087) | 5,073 |
| Llôg ar balansau | | 0 | (1,485) | (1,485) |
| Cyfraniad Cyngor Gwynedd | | (738,150) | (738,150) | 0 |
| Cyfraniad Cyngor Sir Ynys Môn | | (464,637) | (464,637) | 0 |
| **Cyfanswm Incwm** | | (1,211,947) | (1,208,359) | 3,588 |
| **Cyfanswm Defnydd o Balansau** | | 0 | 126,626 | 126,626 |

| | £ |
|---|---|
| Balans Reserf Cyd-Bwyllgor AAA 31/03/2014 | (277,156) |
| Defnydd o balansau 2014/15 | 126,626 |
| **Balans Reserf Cyd-Bwyllgor AAA 31/03/20154** | **(150,530)** |

## Cyfrifon Terfynol 2014/15 - Prif wahaniaethau

Mae'r cyfrifon terfynol yn dangos defnydd o falansau o £126,626 am y flwyddyn 2014/15 ac mae'r tabl isod yn crynhoi y prif wahaniaethau.

| Pennawd Gwariant | Gor / (Tan) (£) | Wariant Net (£) |
|---|---|---|
| **Gweithwyr -** | | |
| Seicolegwyr - swyddi dros dro a dan hyfforddiant | (13,129) | |
| Athrawon Cynhaliol - amrywiol | 85,744 | |
| Gweinyddol - swyddi gwag/cyflenwi | (4,618) | |
| Hyfforddiant - strategaeth staff cymwysedig | 15,639 | |
| Gorwariant - Gweithwyr | | 83,636 |
| **Cyflewnadau -** | | |
| Adeiladau - adolygiad cost a defnydd Plas Llanwnda | 9,986 | |
| Costau Teithio | 8,599 | |
| Adnoddau / Deunydd Swyddfa | 10,547 | |
| Gorwariant - Cyflenwadau | | 29,132 |
| **Gorwariant Eraill (balans)** | | 13,858 |
| **Defnydd o Balansau 2014/15** | | 126,626 |

## Balans Reserf Cyd-Bwyllgor AAA

| Symudiad yn y reserf | Balans y reserf (£) | % o'r gyllideb |
|---|---|---|
| Balans Reserf Cyd-Bwyllgor AAA 31 Mawrth 2014 | (277,156) | 23.0 |
| Defnydd o Balansau 2014/15 | 126,626 | 10.5 |
| **Balans Reserf Cyd-Bwyllgor AAA 31 Mawrth 2015** | (150,530) | 12.5 |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cyrff Llywodraeth Leol Bach yng Nghymru
# **Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2015**

Mae adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru lunio cyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth ac i drefnu bod y cyfrifon hynny yn cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Dywed rheoliad 14 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 fod yn rhaid i gyrff llywodraeth leol llai (hy, y rhai ag incwm a gwariant blynyddol islaw £2.5 miliwn) baratoi eu cyfrifon gan ddilyn arferion priodol.

Mae'r ddeddfwriaeth ganlynol yn diffinio arferion priodol fel cyhoeddiad Canllaw Un Llais Cymru/SLCC sef *Llywodraethu ac atebolrwydd i gynghorau lleol yng Nghymru – Canllaw i Ymarferwyr (2011)* (y Canllaw i Ymarferwyr):

- Awdurdodau iechyd porthladdoedd: Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, Rheoliad 4(b)
- Cydbwyllgorau bach: Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003, Rheoliad 25(1)

Mae'r Canllaw i Ymarferwyr yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llai baratoi eu cyfrifon ar ffurf ffurflen flynyddol. Mae'r Ffurflen Flynyddol hon yn bodloni gofynion y Canllaw i Ymarferwyr.

**Cwblhewch bob adran mewn pinc**. Mae'n bosibl y bydd ffurflenni anghyflawn neu anghywir yn galw am waith archwilio allanol ychwanegol ac yn arwain at gostau ychwanegol. Rhoddir rhagor o ganllawiau yn Adran 5 ac Adran 2 sy'n cynnwys cyfeiriadau at ymhle yn y Canllaw i Ymarferwyr y ceir rhagor o wybodaeth.

O dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, rhaid i'r Corff gymeradwyo'r ffurflen yn ffurfiol ac ardystio Adran 3 cyn y caiff y ffurflen ei hanfon at yr archwilydd. Rhaid i'r Corff gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol erbyn 30 Mehefin. Oni bai bod angen diwygio'r Ffurflen Flynyddol, bydd yr archwilydd yn ardystio'r ffurflen ac yn ei dychwelyd at y Corff i'w chyhoeddi heb fod angen cymeradwyaeth bellach gan y Corff. Mae'r broses o gymeradwyo cyfrifon a threfniadau archwilio yn dilyn y drefn ganlynol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Swyddog Ariannol Cyfrifol/Clerc yn paratoi Adrannau 1 a 2. Y gwasanaeth archwilio mewnol yn cwblhau Adran 4.<br>Y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ardystio'r ffurflen yn Adran 3 **cyn 30 Mehefin** ac yn cyflwyno'r ffurflen i'r Corff. → | Mae'r Corff yn ystyried ac yn cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol mewn cyfarfod **cyn 30 Mehefin**. Caiff Adran 3 o'r ffurflen ei llofnodi a'i dyddio gan yr unigolyn sy'n llywyddu'r cyfarfod lle y cymeradwywyd y ffurflen gan y Corff.<br>Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol/Clerc yn anfon y Ffurflen Flynyddol a'r dogfennau y gofynnwyd amdanynt at Archwilydd Cyffredinol Cymru. → | Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cwblhau'r archwiliad.<br>Os nad oes unrhyw ddiwygiadau, bydd yr archwilydd yn ardystio Adran 3 ac yn ei dychwelyd at y Corff i'w chyhoeddi.<br>Os oes angen gwneud diwygiadau, bydd yr archwilydd yn dychwelyd y ffurflen at y Corff i'w diwygio a'i hailgymeradwyo. Rhaid i'r ffurflen ddiwygiedig wedyn gael ei dychwelyd at yr archwilydd i'w hardystio. → | Rhaid i'r Corff gyhoeddi'r Ffurflen Flynyddol a ardystiwyd erbyn **30 Medi**.<br>Os na all y Corff gyhoeddi'r Ffurflen Flynyddol erbyn 30 Medi, rhaid iddo gyhoeddi'r datganiadau cyfrifyddu ynghyd â datganiad ac esboniad nad yw'r archwilydd, ar y dyddiad cyhoeddi, wedi cyflwyno barn. |

Bydd eich tîm archwilio mewnol yn eich hysbysu o'r wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen ar gyfer yr archwiliad.

Dylech anfon y Ffurflen Flynyddol wreiddiol (hy, nid llungopi), ynghyd ag unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani, at eich archwilydd allanol erbyn y dyddiad a nodwyd gan yr archwilydd. Oni bai y gofynnir i chi wneud hynny, ni ddylech anfon unrhyw gofnodion ariannol gwreiddiol at yr archwilydd allanol.

Caiff ffurflenni a archwiliwyd ac a ardystiwyd eu dychwelyd at y Corff i'w cyhoeddi neu at ddibenion arddangos Adrannau 1, 2 a 3.

**Adran 1 – Datganiadau cyfrifyddu ar gyfer:** **Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (Cynghorau Gwynedd a Môn)**

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben | | Nodiadau a chanllawiau i'r sawl sy'n llunio'r cyfrifon |
|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2014 (£) | 31 Mawrth 2015 (£) | Dylech dalgrynnu'r ffigurau i'r £ agosaf. Ni ddylech adael unrhyw flychau yn wag na chofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigur fod yn gyson â chofnodion ariannol sylfaenol y Corff ar gyfer y flwyddyn berthnasol. |
| **1.** Balansau a ddygwyd ymlaen | **166,351** | **277,156** | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â Llinell 7 y flwyddyn flaenorol. |
| **2.** (+) Incwm o drethiant lleol a/neu ardoll | 1,190,940 | 1,202,787 | Cyfanswm trethiant lleol, ardrethi a/neu ardoll a dderbyniwyd neu sy'n dderbyniadwy yn ystod y flwyddyn gan gynnwys arian gan gorff noddi. |
| **3.** (+) Cyfanswm derbyniadau eraill | 8,258 | 5,572 | Cyfanswm incwm neu dderbyniadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod llai incwm o drethiant lleol a/neu ardoll (Llinell 2). Dylech gynnwys unrhyw grantiau a dderbyniwyd yma. |
| **4.** (-) Costau staff | -962,993 | -1,195,445 | Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau a thaliadau, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a threuliau cysylltiedig. |
| **5.** (-) Llog ar fenthyciadau/ ad-daliadau cyfalaf | 0 | 0 | Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau'r Corff (os o gwbl). |
| **6.** (-) Cyfanswm taliadau eraill | -125,400 | -139,540 | Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod llai costau staff (Llinell 4) a llog ar fenthyciadau/ ad-daliadau cyfalaf (Llinell 5). |
| **7.** (=) Balansau a gariwyd ymlaen | **277,156** | **150,530** | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) - (4+5+6). |
| **8.** (+) Dyledwyr a balansau | 70 | 456 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth dyledion a balansau a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn. |
| **9.** (+) Cyfanswm arian a buddsoddiadau | 310,658 | 219,455 | **Pob cyfrif:** Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â chysoniad y banc. |
| **10.** (-) Credydwyr | -33,572 | -69,381 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth arian sy'n ddyledus gan y Corff (heblaw am fenthyciadau) ar ddiwedd y flwyddyn. |
| **11.** (=) Balansau a gariwyd ymlaen | **277,156** | **150,530** | **Dylai cyfanswm y balansau fod yn gyson â Llinell 7 uchod:** Nodwch gyfanswm (8+9-10). |
| **12.** Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor | 0 | 0 | Gwerth gwreiddiol Cofrestr Asedau a Buddsoddiadau pob ased sefydlog, ynghyd ag asedau hirdymor eraill sy'n eiddo i'r Corff ar 31 Mawrth. |
| **13.** Cyfanswm benthyciadau | 0 | 0 | Balans cyfalaf dyledus pob benthyciad o drydydd partïon ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB). |

| | Ie | Na | N/A | Ie | Na | N/A | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **14.** Nodyn datgelu cronfeydd ymddiriedolaeth | | | ✓ | | | ✓ | Mae'r Corff yn gweithredu fel unig ymddiriedolwr ac mae'n gyfrifol am reoli (a) cronfa/cronfeydd ymddiriedolaeth/asedau (dylai darllenwyr nodi nad yw'r ffigurau uchod yn cynnwys unrhyw drafodion ymddiriedolaeth). |

## Adran 2 – Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym yn cydnabod, fel aelodau o'r Corff, ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran datganiadau cyfrifyddu'r Corff ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015, ein bod wedi gwneud y canlynol:

| | Cytunwyd? | | Mae 'IE' yn golygu bod y Corff wedi: | Pen. CY |
|---|---|---|---|---|
| | Ie | Na* | | |
| **1.** Cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) ac arferion priodol. | ✓ | | Paratoi ei ddatganiadau cyfrifyddu yn y ffordd a ragnodir gan y gyfraith. | 6, 12 |
| **2.** Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac adolygu ei heffeithiolrwydd. | ✓ | | Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth. | 6, 7 |
| **3.** Cymryd pob cam rhesymol i sicrhau ein hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau, rheoliadau a chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Corff i gynnal ei fusnes neu ei sefyllfa ariannol. | ✓ | | Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny. | 6 |
| **4.** Cynnig cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. | ✓ | | Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â diddordeb archwilio a gofyn cwestiynau am gyfrifon y Corff. | 6, 23 |
| **5.** Cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Corff a chymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen. | ✓ | | Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebir ganddo wrth weithredu'r Corff a delio â hwy'n briodol. | 6, 9 |
| **6.** Cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol mewn perthynas â chofnodion cyfrifyddu a systemau rheoli'r Corff drwy gydol y flwyddyn a chael adroddiad gan yr archwilydd mewnol. | ✓ | | Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y Corff. | 6, 8 |
| **7.** Cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol. | ✓ | | Ymateb i faterion a ddygwyd i'w sylw gan archwilwyr mewnol ac allanol. | 6, 8, 23 |
| **8.** Ystyried pa un yw unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, wedi cael effaith ariannol ar y Corff a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu. | ✓ | | Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol. | 6 |

| | Ie | Na | N/A | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **9.** Cronfeydd ymddiriedolaeth – yn rhinwedd ein swydd fel ymddiriedolwr, rydym wedi:<br>• Cyflawni ein cyfrifoldeb mewn perthynas ag atebolrwydd am y gronfa/cronfeydd gan gynnwys cyflwyno adroddiadau ariannol a, lle y bo angen, cynnal archwiliadau annibynnol. | | | ✓ | Cyflawni ei gyfrifoldebau yn rhinwedd ei swydd fel unig reolwr-ymddiriedolwr ymddiriedolaeth neu ymddiriedolaethau lleol. | 3, 6 |

* Ar ddalen ar wahân, rhowch esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb 'naddo' a roddwyd; a disgrifiwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

## Adran 3 – Ardystio a chymeradwyo

### Cymeradwyo ac ardystio'r cyfrifon a'r datganiad llywodraethu blynyddol

Y Corff sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ac am baratoi Ffurflen Flynyddol sydd:

- yn crynhoi cofnodion cyfrifyddu'r Corff ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015; ac
- yn cadarnhau ac yn darparu sicrwydd ynghylch y materion hynny sy'n bwysig i gyfrifoldebau'r archwilydd allanol.

| Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol | Cymeradwyaeth gan y Corff |
|---|---|
| **Tystysgrif o dan Reoliad 15(1) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014**<br>Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Corff, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, pa un bynnag sy'n berthnasol, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015. | **Cymeradwyo datganiadau cyfrifyddu o dan Reoliad 15(2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol**<br>Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'u cymeradwyo gan y Corff o dan gyfeirnod cofnodion y corff: |
| | |
| **Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol:** [signature] | **Llofnod y Cadeirydd:** |
| **Enw:** Dafydd L Edwards | **Enw:** |
| **Dyddiad:** 19/06/15 | **Dyddiad:** |

Dafydd L Edwards
Swyddog Cyllid Statudol
Cyngor Gwynedd

### Tystysgrif Archwilio Allanol

Mae'r archwilydd allanol yn cynnal yr archwiliad yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ar sail ei adolygiad o'r Ffurflen Flynyddol a'r wybodaeth ategol, mae'n nodi pa un a fydd unrhyw fater a ddaw i'w sylw yn peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni. Ardystiwn ein bod wedi cwblhau'r archwiliad o'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 ar gyfer:

**Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (Cynghorau Gwynedd a Môn)**

### Adroddiad yr archwilydd allanol

[Ar wahân i'r materion a nodwyd isod]* Ar sail ein hadolygiad, mae'r wybodaeth yn y Ffurflen Flynyddol, yn ein barn ni, yn cydymffurfio ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i'n sylw sy'n peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

[[Mae'r materion hyn ynghyd ag]* Unrhyw faterion eraill nad ydynt yn effeithio ar ein barn yr hoffem dynnu sylw'r Corff/cyfarfod atynt wedi'u cynnwys yn ein hadroddiad i'r Corff, dyddiedig ______________________.]

(* Dilëwch fel y bo'n briodol)

| | |
|---|---|
| **Llofnod yr archwilydd allanol:**<br>**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru** | |
| **Enw'r archwilydd allanol:** | **Dyddiad:** |

## Adran 4 – Adroddiad archwilio mewnol blynyddol i: CBAAA (Cynghorau Gwynedd a Môn)

Mae archwiliad mewnol y Corff, a gynhaliwyd yn annibynnol ac ar sail asesiad risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dethol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaw i ben 31 Mawrth 2015.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Corff a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ba un a oedd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd bwysig, yn cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Corff.

| | Cytunwyd? | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ie | Na* | N/A | Heb ei gynnwys** |
| **1.** Mae'r llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn. | ✓ | | | |
| **2.** Bodlonwyd rheoliadau ariannol y Corff, cefnogwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW. | ✓ | | | |
| **3.** Asesodd y Corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau i reoli'r rhain. | | | | ✓<br>Bydd Archwiliad Mewnol yn cael ei gynnal ar y Cydbwyllgor unwaith y bydd yr Adolygiad Strategol wedi ei gwblhau. Mae'r gwaith wedi ei gynllunio ar gyfer 2016/17. |
| **4.** Deilliodd y praesept blynyddol o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol. | ✓ | | | |
| **5.** Cafodd yr incwm disgwyliedig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n syth, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW. | ✓ | | | |
| **6.** Cefnogwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW. | | | ✓ | |
| **7.** Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau'r Corff,<br>a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. | ✓ | | | |
| **8.** Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn ac yn gywir, ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. | | | ✓ | |
| **9.** Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol. | ✓ | | | |
| **10.** Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u cefnogi gan lwybr archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol. | ✓ | | | |
| **11.** Cronfeydd ymddiriedolaeth (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusennol). Mae'r Corff wedi cyflawni ei gyfrifoldebau fel ymddiriedolwr. | | | ✓ | |

| Roedd rheolaethau digonol yn bodoli ar gyfer unrhyw feysydd risg a nodwyd gan y Corff (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill isod neu ar dudalennau ar wahân os oes angen: | Cytunwyd? | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ie | Na* | N/A | Heb ei gynnwys** |
| 13. | | | ✓ | |
| 14. | | | ✓ | |

* Os atebwyd 'na', nodwch y goblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid rheoli a nodwyd (ychwanegwch dudalennau ar wahân os oes angen).

** Os atebwyd 'heb ei gynnwys', nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i'r archwilydd mewnol esbonio pam hynny.

| | |
|---|---|
| **Enw'r unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: LUNED FON JONES** | |
| **Llofnod yr unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol:** | Luned Fon Jones |
| **Dyddiad: 15 Mehefin, 2015** | |

## Adran 5 – Nodiadau cyfarwyddyd ar gwblhau Ffurflen Flynyddol 2015

1. **Nodwch y newidiadau i'r broses o gymeradwyo ac archwilio'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn hon. Disgrifir y newidiadau hyn ar glawr blaen y Ffurflen Flynyddol hon.**
2. Am gyfarwyddyd darllenwch y Canllaw i Ymarferwyr *(Llywodraethu ac atebolrwydd i gynghorau lleol: Canllaw i Ymarferwyr 2011 (Cymru))* – ar gael gan Un Llais Cymru a'r SLCC. Mae'n cynnwys popeth sydd ei angen arnoch ar gyfer yr archwiliad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a'r archwiliad statudol.
3. **Mae Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru (http://www.wao.gov.uk/cy/arfer-da/cyllid/arian-cynghorau-cymuned) yn darparu rhagor o wybodaeth am y broses cyfrifon ac archwilio ynghyd â chanllawiau ar faterion llywodraethu.**
4. Sicrhewch fod pob adran wedi'i chwblhau (hy, dim blychau pinc gwag) gan yr unigolyn priodol a bod y tystysgrifau yn Adran 3 wedi'u llofnodi a'u dyddio'n briodol. Ceisiwch osgoi gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r ffurflen wedi'i chwblhau. Os na allwch osgoi hyn, rhowch linell drwy'r cofnodion anghywir, sicrhewch fod y diwygiadau wedi'u llofnodi'n briodol â llythrennau cyntaf eich enw a'ch bod wedi rhoi esboniad i'r archwilydd. **Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.** Caiff ffurflenni blynyddol anghyflawn neu rai sy'n cynnwys diwygiadau heb eu cymeradwyo a/neu eu hesbonio neu hylif cywiro eu dychwelyd heb eu harchwilio.
5. Defnyddiwch y rhestr wirio isod. Gofynnwch i ail berson, eich archwilydd mewnol neu'r Cadeirydd efallai, adolygu eich Ffurflen Flynyddol er mwyn sicrhau ei bod yn gyflawn cyn anfon copi at yr archwilydd.
6. Sicrhewch fod y copi o'r cysoniad banc y byddwch yn ei anfon at eich archwilydd gyda'r copi o'r Ffurflen Flynyddol yn cynnwys eich **holl** gyfrifon banc a balansau ariannol. Os nad oes unrhyw eitemau cysoni, nodwch hyn a rhowch dystiolaeth o falansau'r banc. Os oes gan eich Corff unrhyw fuddsoddiadau, nodwch eu gwerth ar y cysoniad banc. Dylai'r archwilydd allu cytuno ar eich cysoniad banc â Llinell 9 yn Adran 1. Ceir rhagor o gymorth ar gysoniadau banc yn y Canllaw i Ymarferwyr*.
7. **Rhowch esboniad llawn** am unrhyw amrywiannau sylweddol yn y datganiadau ariannol. Mae'r archwilydd am wybod eich bod **chi'n** deall y rhesymau dros y newid. Dylech gynnwys unrhyw ddadansoddiad perthnasol ac ansoddol fel y dangosir yn yr enghreifftiau yn y Canllaw i Ymarferwyr ac nid copi o'ch cyfrifon manwl yn unig.
8. Peidiwch ag anfon unrhyw wybodaeth at yr archwilydd nad yw wedi gofyn yn benodol amdani. Nid yw hyn o fudd. Sicrhewch eich bod yn amgáu'r holl wybodaeth y mae'r archwilydd wedi gofyn amdani. Os bydd yn rhaid i'r archwilydd adolygu gwybodaeth nas gofynnwyd amdani, gofyn eto am wybodaeth, neu os caiff gysoniad banc anghyflawn neu esboniad o amrywiannau, mae'n bosibl y bydd hyn yn arwain at gostau ychwanegol y mae gan yr archwilydd yr hawl i godi ffioedd ychwanegol amdanynt.
9. Sicrhewch eich bod wedi nodi'r ffigur cywir yn Adran 1! Sicrhewch hefyd fod y balans a gariwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol (Llinell 7 o 2014) yn cyfateb i'r balans a ddygwyd ymlaen yn y flwyddyn gyfredol (Llinell 1 o 2015).
10. **Peidiwch â chwblhau'r Dystysgrif Archwilio Allanol yn Adran 3.** Yr archwilydd allanol fydd yn cwblhau hon ar ôl i'r gwaith archwilio allanol gael ei gwblhau.
11. **Dylech ateb pob gohebiaeth â'r archwilydd allanol yn brydlon.** Bydd hyn yn eich helpu i gyflawni eich rhwymedigaethau statudol a bydd yn lleihau cost yr archwiliad i'r Corff.

| Rhestr wirio ar gyfer cwblhau'r ffurflen – Bydd ateb 'Na' yn golygu nad ydych o bosibl wedi bodloni'r gofynion | | Gweithredwyd? | |
|---|---|---|---|
| **Cyflwyno i'r archwilydd allanol** | | **Ie** | **Na** |
| **Cyfrifon** | A yw'r papurau i'w hanfon at yr archwilydd allanol yn cynnwys esboniad o amrywiadau sylweddol rhwng y llynedd a'r flwyddyn hon? | | |
| | A yw'r cysoniad banc ar 31 Mawrth 2015 yn gyson â Llinell 9? | | |
| **Cymeradwyo** | A yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi ardystio Adran 3 (Rheoliad 15 (1) cyn 30 Mehefin 2015 fan bellaf? | | |
| | A yw'r Corff wedi cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu cyn 30 Mehefin 2015 ac a yw Adran 3 wedi'i llofnodi a'i dyddio gan yr unigolyn oedd llywyddu'r cyfarfod lle y rhoddwyd cymeradwyaeth? | | |
| **Pob adran** | A yw'r holl flychau pinc yn Adran 1 a 2 wedi'u cwblhau ac a oes esboniadau wedi'u rhoi lle bo angen? | | |
| | A yw'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani gan yr archwilydd allanol wedi'i hanfon gyda'r Ffurflen Flynyddol hon? Dylech gyfeirio at yr hysbysiad o'r archwiliad ac unrhyw amserlenni ychwanegol a ddarparwyd gan eich archwilydd allanol. | | |

| Os caiff y cyfrifon eu diwygio ar ôl derbyn adroddiad yr archwilydd allanol ar faterion sy'n codi | | Ie | Na |
|---|---|---|---|
| **Cyfrifon** | A yw'r datganiadau cyfrifyddu diwygiedig wedi'u cymeradwyo ac a yw Adran 3 wedi'i hail-lofnodi a'i hail-ddyddio fel tystiolaeth o gymeradwyaeth y Corff o'r diwygiadau cyn iddynt gael eu hailgyflwyno i'r archwilydd? | | |

This page is intentionally left blank